CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 9fed Mehefin 2025
Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 9th June 2025

Yn Bresennol/Present:
Cynghorwyr/Councillors Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Peter Evans, Ben Scott-Jones, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees a/and Chynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South Keith Evans a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis
Ymddiheuriadau/Apologies Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Gynghorydd Elen Grantham / Apologies for absence were received from Cllr Elen Grantham.

Ymweliad/Visit
Mynychodd Gavin Jones, Swyddog Datblygu Rhanbarthol ar gyfer Openreach, y cyfarfod i esbonio am y cynllun ar gyfer cyllid band eang i gael ffeibr cyflym yng Nghyfnewifeydd Ardal Llandysul a Maesycrugiau. Mae cynllun Taleb Gigadid y Llywodraeth yn galluogi eiddo unigol o fewn cymunedau i ddefnyddio cyllid am ddim gan y Llywodraeth i wella eu cysylltedd band eang, gan gynnig mwy o gydnerthedd a dibynadwyedd. Er mwyn galluogi i'r cynllun gael ei ddatblygu, mae gofyn cael ymrwymiad gan unigolion i hawlio'r daleb ac ymrwymo i ddefnyddio'r ddarpariaeth ar ôl ei gosod. Ar hyn o bryd, mae gofyn iddynt gael tua 80 eiddo pellach i gofrestru.

Gavin Jones, Regional Development Officer for Openreach attended the meeting to explain about the scheme for broadband funding for fast fibre in the Llandysul and Maesycrugiau Area Exchanges. The Governments Gigabit Voucher scheme enables individual properties within communities to use free Government funding to improve their broadband connectivity that has better resilience and reliability. To enable the scheme to be built there is a requirement for a commitment from individuals to claim the voucher and commit to utilizing the provision once installed. Currently they require circa 80 further properties to enlist.

Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / No decleration of interest was received.

Adroddiad/Report

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân, Capel Dewi a Thre-groes. / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian, Capel Dewi and Tregroes Wards.

Adroddiad Mai/May Report
Adroddwyd am 6 trosedd yn Ward Tref Llandysul, 4 adroddiad trafnidiaeth / ffyrdd, 1 ymddygiad Gwrthgymdeithasol a 9 pryder lles diogelwch y cyhoedd.
6 crimes were reported in Llandysul Town Ward, 4 transport /road reports, 1 Anti-social behaviour

and 9 public safety welfare concerns.

Ward Tref Llandysul Town Ward
Trosedd – Domestig /– Domestics – 1
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment – 3
2 adroddiad, y ddau barti yn adnabod ei gilydd/1 adroddiad am lythyr bygythiol gan unigolyn anhysbys / 2 reports both parties known to each other/1 report of threatening letter from unknown person
Trosedd, Difrod Troseddol / Crime Criminal Damage -1
1 adroddiad am ddifrod i goedwig – adroddiad tân / 1 report of damage to a forest – fire report
Trosedd, Dwyn / Crime Theft – 1
1 adroddiad am ddwyn ffôn symudol / 1 report of stolen mobile phone
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Antisocial Behaviour – 1
Adroddiad am sŵn uchel o eiddo cyfagos / Report of loud noise from neighbouring property
Trafnidiaeth/Ffordd – 4 adroddiad / Transport/Road – 4 reports
Lles diogelwch y cyhoedd – 9 adroddiad / Public safety welfare – 9 reports

Ward Pontsiân, Capel Dewi a Thre-groes / Pontsian, Capel Dewi and Tregroes Ward
Adroddwyd am 1 trosedd, 7 adroddiad trafnidiaeth/ffordd a 5 adroddiad Lles y Cyhoedd yn Ward Pontsiân, Capel Dewi a Thre-groes /1 crime, 7 transport/road reports and 5 Public Safety Welfare reports were reported in Pontsian, Capel Dewi and Tregroes Ward
Trosedd – Aflonyddu 1 adroddiad / Crime – Harassment 1 report
Y ddau Barti yn adnabod ei gilydd / Both Parties know to each other
Trafnidiaeth/ffordd – 7 adroddiad / Transport/road – 7 reports
Diogelwch y Cyhoedd a Lles – 5 adroddiad / Public Safety and Welfare – 5 reports
Gweithgarwch amheus: cerbyd yn ymddwyn yn amheus ac yn mynd o gwmpas ffermydd – manylion yn anhysbys / Suspicious activity: vehicle acting suspicious and attending farms – details unknown.

Cofnodion/Minutes
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12/05/25 / Minutes of monthly meeting held on 12/05/25 were confirmed.

Materion yn Codi: -

Roedd Rhodri Thomas wedi gosod cwrb wrth y Gysgodfan Fysiau yng Nghapel Dewi. Nid oedd Cynghorydd Douglas Davies yn fodlon gyda'r gwaith, felly bydd y clerc yn gofyn i Rhodri Thomas ddychwelyd, ond dylai gysylltu â Chynghorydd Douglas Davies yn y lle cyntaf er mwyn ei gyfarfod yno.

Roedd Cynghorydd Keith Evans yn dymuno egluro mai'r targed codi arian ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las yw £14,000. Roedd y £6000 y soniwyd amdano yng nghofnodion mis Mai yn darged a osodwyd gan y pwyllgor lleol ar gyfer y rhoddion tuag at y targed cyffredinol.

Roedd y clerc wedi cysylltu â Swyddfa'r Post yn Horeb ynghylch y blwch post yng Nghapel Dewi. Maent yn aros am ymateb gan y Rheolwr Rhanbarthol.

Ni chafwyd ymateb am gyflwr y polyn fflag yn Llandysul gan Gyngor Sir Ceredigion.

4) Ceisiadau Ariannol:

Ni chafwyd unrhyw geisiadau.

Gohebiaeth

Cafwyd llythyrau yn diolch am roddion gan Sioe Amaethyddol Llandysul a'r Cylch a chan Llandysul Pontweli Ymlaen am y rhodd tuag at Benwythnos Garddio Llandysul ac aelodaeth Walkers are Welcome.

5) Materion i'w Trafod

Sedd Wag Ward Tref Llandysul

Mae 2 sedd wag o hyd yn Ward Tref Llandysul.

Lle chwarae Plant Llandysul

Roedd y clerc wedi cael neges e-bost ynghylch grant i gael rhywfaint o gyllid ar gyfer y lle Chwarae Plant, ac esboniodd Cynghorydd Keith Evans hefyd bod Trawsnewid Trefi yn cynnig grant a allai dalu am offer chwarae ar gyfer y lle chwarae, yn ogystal ag agweddau eraill megis gwaith mewn mannau cyhoeddus. Byddai llunio cais yn gofyn am gapasiti nad oes gan y Cyngor. Byddai unrhyw gais yn

Matters Arising: -

Rhodri Thomas had put in a kerb at the Bus Shelter at Capel Dewi. Cllr Douglas Davies was not happy with the work therefore the clerk to ask Rhodri Thomas to return but contact Cllr Douglas Davies first to meet him there.

Cllr Keith Evans wished to clarify that Eisteddfod y Garreg Las had a fundraising target of £14,000. The £6000 mentioned in the May minutes was a target set by the local committee for donations towards the overall target.

The clerk had contacted the Post Office in Horeb with regards to the post-box in Capel Dewi. They were waiting for a response from the Regional Manager.

No response had been received with regards to the condition of the Llandysul flagpole from Ceredigion County Council.

4) Funding Applications:

None were received.

Correspondence

Letters of gratitude for donations were received from
Llandysul & District Agricultural Show
Llandysul Pontweli Ymlaen for a donation towards
Llandysul Gardening Weekend and Walkers are Welcome membership.

5) Matters for Discussion

Vacant Seat Llandysul Town Ward

There are still 2 vacant seats in Llandysul Town Ward.

Llandysul Children's Play area

The clerk had received and email with regards to a grant for some

seiliedig ar y dyheadau yn y Cynlluniau Bro lleol ar y cyfan. Penderfynwyd y dylai Cynghorydd Keith Evans gysylltu â Llandysul Pont-Tweli Ymlaen i drafod y costau a'u capasiti nhw i ddelio â'r cais am grant ar ran y Cyngor Cymuned. Awgrymodd Cynghorydd Keith Evans y dylem gynnal cyfarfod gydag LPY, Swyddogion priodol o'r Cyngor Sir ac aelodau Ward Llandysul yn y lle cyntaf, i ddysgu mwy am botensial y cynllun, ac yna, gwahodd partneriaid eraill sydd â diddordeb yn y gymuned. Cytunwyd ar hyn.

Materion Ward Brys

Llandysul

Holodd Cynghorydd Keith Evans a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon helpu i dalu am daflenni cynllun Gwarchod y Gymdogaeth sy'n cael ei sefydlu o gwmpas system un ffordd Llandysul. Awgrymwyd y dylai'r grŵp ysgrifennu at y Cyngor gan ofyn iddo ystyried y mater yn ystod ein cyfarfod nesaf, gan nad yw'n dod dan ein trefniant arferol ar gyfer dyfarnu grantiau.

Tynnwyd sylw y Cyngor at yr angen i wneud gwaith ar y gordyfiant wrth ben uchaf Lôn Lety, yn ogystal â'r maes Parcio yn Llandysul.

Rhoddwyd caniatâd i Gynghorydd Keith Evans geisio cymorth wagen fforch godi i ddelio â'r goleuadau Nadolig yn Llandysul, yn barod am wythnos y carnifal ddechrau fis Gorffennaf.

Gofynnodd Cynghorydd Heddwen Davies am hysbysfwrdd newydd ar y wal ar waelod Rhiw Seion. Byddai hi'n gyfrifol am ddiweddaru'r byrddau. Awgrymwyd y gallai hwn fod yn rhan o'r gwaith mewn mannau cyhoeddus ar gyfer grant Trawsnewid Trefi.

Capel Dewi

Roedd Cynghorydd Douglas Davies yn dymuno diolch i'r Cyngor Sir am wneud gwaith da wrth ailosod wyneb y ffordd o Allt yr Odyn i Benffordd. Bydd y clerc yn cyfleu ein gwerthfawrogiad i'r Cyngor Sir am y gwaith.

funding towards the Children's Play area, Cllr Keith Evans also explained that the Transforming Towns had a grant that could potentially fund the playground apparatus for the play area as well as other aspects like public realm works. To formulate an application would require capacity which wasn't available within the Council. Any application would be based in the main on the aspirations contained in the Local Place Plans. It was decided that Cllr Keith Evans liaises with Llandysul Pont-Tweli Ymlaen in terms of costs and their capacity to deal with the grant application on behalf of the Community Council. Cllr Keith Evans suggested that we initially hold a meeting with LPY, appropriate County Council Officers and Llandysul Ward members to learn more about the potential of the scheme and to then invite other interested partners from within the community. This was agreed.

Urgent Ward Matters

Llandysul

Cllr Keith Evans asked if the Community Council would help with funding leaflets for the Neighbourhood watch that was being set up around Llandysul's one way system. It was suggested as this request would fall outside our normal grant regime, that the group write to the Council for further consideration at our next meeting.

It was brought to the Council's attention of the need to undertake work re the overgrowth on the top of Lon Letty as well as the Car Parking area in Llandysul.

Permission was given to Cllr Keith Evans to seek the assistance of a forklift to sort out the Festive lighting in Llandysul ready for

Adroddodd dau aelod Ward Capel Dewi bod bwlch mawr wedi ymddangos rhwng y wal o gwmpas yr eglwys a'r ffordd. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor i ymchwilio i'r broblem a'i datrys.

Roedd llwyth o deiars wedi cael eu tipio'n anghyfreithlon ar ben y ffordd ger Dolbantau. Bydd y clerc yn adrodd am hyn trwy wasanaeth Clic.

Bydd y clerc hefyd yn atgoffa'r Cyngor Sir o'r materion yr adroddwyd amdanynt yn flaenorol gyda'r carafannau ym Mhontsiân a'r tŷ ym Maesymeillion mewn perthynas â materion cynllunio.

Adroddiad gan Gynghorwyr Sir

Cafwyd gohebiaeth mewn neges e-bost fel y gofynnwyd amdani, yn rhoi gwybodaeth fanwl am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul, yn ystod y cyfnod rhwng 13 Mai a 9 Mehefin, ac fe'i nodwyd. Amlygodd y ffaith ei fod wedi mynychu'r digwyddiad NACRO yn Neuadd Tysul. Bydd y clerc yn siarad gyda chyn Gynghorydd Andrew Howells am y deunyddiau a ddefnyddiwyd ar ein stondin, ac yn mynd ati i brynu'r llieiniau bwrdd, ac roedd y camau gyda'r byrddau hysbysebu wedi cael eu cymryd yn barod.

Mynegwyd diolch i'r gwasanaeth tân ac achub am eu holl waith caled yn ystod y tanau ar gyrion Llandysul yn ddiweddar. Esboniodd Cynghorydd Maldwyn Lewis y byddai Rebecca Evans (Ysgrifennydd Cabinet LlC) yn ymweld â Delinate yn Llandysul am eu lansiad o'r cynllun cyllid cymunedol. Rhoddodd sylw i'r mater hefyd bod rhieni niferus yng Ngheredigion yn cael anhawster gyda chludiant i'r ysgol ar gyfer eu plant. Esboniodd ymhellach, pe bai'r apêl cychwynnol yn cael ei wrthod, gallai rhieni gyfleu eu pryder i aelod o'r Pwyllgor apêl.

Gohebiaeth

Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd.

carnival week beginning of July.

Cllr Heddwen Davies asked for a new noticeboard on the wall on the bottom of Seion Hill. She would take responsibility in updating the boards. It was suggested that this could be a part of public realm work of the Transforming town grant.

Capel Dewi

Cllr Douglas Davies wished to thank the County Council for the good job in re- surfacing the road from Allt yr Odyn to Penffordd. Clerk to convey our appreciation for the work to the County Council.

Both Capel Dewi Ward members reported that a big gap had appeared between the church perimeter wall and the highway. It was decided that the clerk contact the Council to investigate and remedy the problem.

A load of tyres had been fly tipped on top of the road by Dolbantau. The clerk to report this via the Clic call for service.

The clerk to also remind the County Council of the previously reported issues with the caravans in Pontian and the house in Maesymeillion with regards to planning issues.

Report by County Councillors

E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 13 May – 09 June and noted.
He highlighted the fact that he had attended the NACRO event at Tysul Hall. Clerk to follow up with former Cllr Andrew Howells re materials used on our stand and to pursue the purchase of the tablecloths, action on

Cafwyd ymgynghoriad am y Cynllun Gwasanaethau Clinigol.
Canolfan Gwastraff/ailgylchu Llanarth, atgoffwyd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn ogystal ag eraill sydd ar gael ar dudalennau Gwe y Cyngor Sir.
Adroddodd y Clerc ymhellach bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi archwiliad clir o'i gyfrifon ar gyfer 2023-24.
Un argymhelliad a roddwyd oedd y dylai Cynghorwyr unigol gael eu lwfans o £150 yn y lle cyntaf, os byddai'n cael ei hawlio, ac yna, iddynt roi eu siec personol eu hunain i unrhyw sefydliad y byddent yn dymuno ei gefnogi, yn hytrach na'n harfer presennol, sef bod y Clerc yn ysgrifennu'r sieciau hyn ar ran y Cyngor.

Archwiliad

Archwilio Cymru– Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/24. Yn ystod ei gyfarfod diwethaf, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cyfrifon i'w cynnwys yn y ffurflen flynyddol.
Adran 1 – Llofnodwyd y Datganiadau Cyfrifyddu sef dadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan "10" uchod a'r Dystysgrif cyn archwilio gan y Clerc. Yn ogystal, llofnodwyd y cadarnhad cyn archwilio gan y Cadeirydd a'r Clerc. **Adran 2** – Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dangoswyd hysbysiad i'r cyhoedd yn hysbysu bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio. Mae'r Archwilydd Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi gwirio'r cyfrifon hefyd.

Cynllunio

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw Wrthwynebiadau iddynt:
A250351 - 1 Frongoch, Heol Gorrig, Pentrellwyn SA44 4LE

A250323 – Tir a gyrchir o Heol y Gilfach, Llandysul, SA44 4HU – roedd y Cynghorwyr yn dymuno gofyn am ragor o wybodaeth am y cais hwn.

Gwybodaeth Ariannol

popups were already in hand.

Gratitude was expressed to the fire and rescue service for all their hard work during the recent fires on the outskirts of Llandysul.
Cllr Maldwyn Lewis explained that Rebecca Evans (WG Cabinet Secretary) would be visiting Delinate in Llandysul for their launch of the community funding scheme.
He also addressed the issue that numerous parents in Ceredigion were having difficulty with school transport for their children. He further explained that if the initial appeal was rejected, parents could take their concern to a members appeal Committee.

Correspondence

Clerks and Councils Direct were received and noted.
Consultation for the Clinical Services plan was received.
Llanarth Refuse/recycling Centre, members were reminded to respond to this consultation as well as others that were available on the county Council Web pages.
Clerk further reported that Wales Audit Office had given a clear audit of its 2023-24 accounts.
One recommendation provided was that individual Councillors should initially receive their £150 allowance, if claimed, and then to provide their own personal cheque to any organisation they might wish to support as opposed to our current practice of Clerk drawing these from Council cheques.

Audit

Audit Wales – Annual Return form for the year ended 31/03/24. The Council at its last meeting had approved the accounts for inclusion in the annual return.

Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £163.99 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mai.
Action Graffix – Ysgrifennwyd siec am y swm o £150 am ddwy faner hysbysebu ddigidol.

Section 1 – Accounting Statements being a breakdown of the figures approved under "10" above and the Certification prior to audit was signed by the Clerk. Also, confirmation prior to audit was signed by the Chair and Clerk. **Section 2** – It was resolved to approve The Annual Governance Statement. Notice to the public informing that the records are available for inspection has been displayed. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the accounts.

Planning

The following plans were supported by the Community Council and there were no Objections to the proposals:
A250351 - 1 Frongoch, Gorrig Road, Pentrellwyn SA44 4LE

A250323 - Land accessed from Heol y Gilfach, Llandysul, SA44 4HU – Councillors wished for more information on this application.

Financial Information

Llinos Jones – Cheque for £163.99 was written for May translation.
Action Graffix – A cheque was written for £150 for two digital print pop up banners.

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p	*Rhif siec/ Cheque number*
Nia Davies	Cyflog y Clerc	633.07	001342
HRMC	Cyflog y Clerc	158.20	001343
Llinos J|ones	Cyfieithu/Translating	163.99	001344
Action Graffix	Popups	150.00	001345
Nia Davies	Broadband	140.00	001346
Nia Davies	Postage	30.00	001347